**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**AWDURDOD TÂN AC AHCUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR ARCHWILIO**

**14 Medi 2015**

**AMCANION GWELLA DRAFFT**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## DIBEN YR ADRODDIAD

1 Diben yr adroddiad yw hysbysu Aelodau o'r amcanion gwella drafft y bydd y Panel Gweithredol yn ei argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub, ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

## CEFNDIR

2 Mae'n ofynnol i awdurdodau gwella wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus a gosod Amcanion Gwella iddynt eu hunain bob blwyddyn, a hynny ar ôl ymgynghori ynghylch yr amcanion hyn gyda chynrychiolwyr partïon sydd â diddordeb. Mae hyn yn unol â Mesur Llywodraeth leol (Cymru) 2009.

3 Yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ar 2 Chwefror 2015, cytunwyd ar aelodaeth y Gweithgor Cynllun Gwella. Rhwng Mawrth a Gorffennaf 2015, bu i'r gweithgor gyfarfod yn rheolaidd i ystyried a thrafod gwybodaeth fanwl ar gyfer datblygu amcanion gwella'r Awdurdod ar gyfer 2015-16.

## GWYBODAETH

4 Yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio, caiff Aelodau gyflwyniad fydd yn crynhoi gwaith y Gweithgor Cynllun Gwella. Derbyniodd y Gweithgor sawl cyflwyniad ar yr adolygiad risg a dechreuwyd ystyried goblygiadau'r gyllideb ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

5 Wedi ystyried a thrafod yr holl wybodaeth a dderbyniwyd, cyflwynwyd yr amcanion canlynol i'r Panel Gweithredol ar 20 Gorffennaf 2015 ac fe'u cyflwynir i'r Awdurdod Tân ac Achub i'w cymeradwyo ar 21 Medi 2015.

Amcan Gwella 1 – Cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel drwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi.

Amcan Gwella 2 – Gan gydnabod y gostyngiad a ragwelir yng nghyllid llywodraeth leol, bydd yr Awdurdod yn datblygu strategaeth ariannol tair blynedd lle bydd rhewi'r gyllideb yn egwyddor ganolog.

Amcan Gwella 3 – Ad-drefnu ein hadnoddau i gyfateb i risg. Byddwn yn gweithredu model newydd o sicrhau adnoddau, a fydd yn darparu o leiaf 20 gorsaf dân ar gael yng Ngogledd Cymru ar adegau o risg cymharol is ac o leiaf 38 ar gael ar adegau o risg cymharol uwch.

Amcan Gwella 4 – Edrych ar gyfleoedd i amrywio rôl diffoddwyr tân, a chynnig gwasanaethau ychwanegol i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.

## ARGYMHELLIAD

6 Gofynnir i Aelodau nodi'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad hwn a'r cyflwyniad a geir yn y cyfarfod.